

## Bryn Llwyn, Penygroes LL54 6PF Fflatiau a byngalos 2 Lofft

### RHAID BOD YN GYMWYS AM DŶ CYMDEITHASOL

Mae fflatiau a byngalos ym Mryn Llwyn wedi ei ddylunio yn arbennig ar gyfer bobl hŷn neu anabl sy'n mwynhau byw'n annibynnol.

### Cyfleusterau'r Fflat a byngalo:

- ✓ Lofa
- ✓ Cegin
- ✓ Dwy lofft
- ✓ Ystafell ymolchi gyda chawod cerdded mewn / ystafell wlyb neu bath
- ✓ System gwres canolog nwy
- ✓ Byngalos a fflatiau llawr gwaelod gyda gerddi eu hunain
- ✓ Fflatiau eraill efo gerddi cymunedol

### Cyfleusterau ar y Safle:

- ✓ Gwasanaeth Swyddogion Tai Gwarchod a larwm argyfwng
- ✓ Parcio ar y safle (cyfyngedig)

### Gweithgareddau ar y safle

Mae Bryn Llwyn yn ymuno a'r neuadd gymunedol gyda'u gweithgareddau cymdeithasol sy'n cynnwys cinio wythnosol sy'n cael ei gynnal gan Age Cymru. Gall y gweithgareddau hyn newid a chroesawir syniadau newydd.

### Lleoliad:

- ✓ Wedi ei leoli yng nghalon y pentref
- ✓ Yn agos i'r feddygfa
- ✓ Llyfrgell
- ✓ Siopau hwylus
- ✓ Lle trin gwallt
- ✓ Eglwys
- ✓ Neuadd gymunedol
- ✓ Tecawe
- ✓ Fferyllfa
- ✓ Ar lwybr bws sy'n mynd i Gaernarfon a Phorthmadog.

Am fwy o wybodaeth am gyfleusterau yn eich ardal, ewch i 'Lle dwi'n byw' ar [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru) a rhoi y cod post canlynol i mewn: LL54 6PF

### Pwy sy'n gymwys am Dai Gwarchod?

Bydd angen i chi gwrdd ag un (neu fwy) o'r criteria canlynol i fod yn gymwys am dŷ gwarchod:

- Dros 55 mlwydd oed
- Anabl

Mae'n rhaid hefyd eich bod **angen** y gwasanaeth cefnogol sy'n cael ei ddarparu gan Swyddogion Tai Gwarchod.

### Mae'r Gwasanaeth Tai Cefnogol yn cynnwys:

- Ymweliadau cefnogaeth i'ch cartref (o leiaf 45 munud yr wythnos). Ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Cymorth ar gael i reoli arian a thalu biliau
- Cyswllt a chyfeirio at asiantaethau eraill fel gwasanaeth siopa neu lanhau gan Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, Addasiadau, Gofal y Cartref (Gwasanaethau Cymdeithasol) ayb
- Cynllun Cefnogi Personol yn seiliedig ar anghenion sydd wedi eu hasesu
- Gosod system larwm argyfwng 24 awr (rhaid cael llinell ffôn)

**NODWCH OS GWELWCH YN DDA:** ni all Swyddogion Tai Cefnogol wneud pethau fel siopau, coginio, glanhau a gofal personol. Cyfrifoldeb sefydliadau gofal fel Age Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal y Cartref yw pethau fel hyn.

I wneud cais am un o'r cartrefi hyn cysylltwch â Tîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd ar **01286 685100** neu ebostiwch [opsiynautai@gwynedd.gov.uk](mailto:opsiynautai@gwynedd.gov.uk)

